Addysgu a Dysgu
Rhoi Egwyddorion ar Waith

Canllaw i Ddefnyddwyr

T·L·R·P TEACHING & LEARNING RESEARCH PROGRAMME

E·S·R·C ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL

Addysgu a Dysgu
Rhoi Egwyddorion ar Waith

Mae'r DVD hwn yn dangos sut y gall athrawon ddefnyddio'u barn i roi egwyddorion addysgol a seilir ar dystiolaeth ar waith yn ymarferol.

Daw'r dystiolaeth o Raglen Ymchwil Addysgu a Dysgu'r DU (TLRP) a'i 23 o brosiectau mewn ysgolion sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau i ddysgwyr. Nid oes cysylltiad rhwng y gwaith hwn a'r llywodraeth.

Mae'r DVD'n cynnig blas o brosiectau TLRP yn y dosbarth. Mae'r rhain yn dangos rhai o'r egwyddorion addysgol a ddistyllwyd o ganfyddiadau'r prosiectau i gyd.

Er bod egwyddorion addysgol o'r fath wedi hen sefydlu, gallan nhw fod yn anodd eu gweithredu os nad oes gan athrawon yr amser a'r lle i feddwl amdanyn nhw'n iawn, ac i weld sut mae eu rhoi ar waith yn eu hamgylchiadau penodol nhw.

Felly, mae'r DVD'n gwahodd ysgolion ac athrawon i bwyllo, ystyried a gofyn:

- I ba raddau y mae ein hymarfer yn y dosbarth yn adlewyrchu'r egwyddorion addysgol hyn sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth?
- Beth y gellid ei wneud i wella'n harferion yn unol â'r egwyddorion hyn?
- Sut y gallem wella'r amgylchiadau i gefnogi datblygiad o'r fath?

Yn y tudalennau a ganlyn, gwelir rhai o ganfyddiadau'r gwaith ymchwil sy'n ymwneud â'r egwyddorion hyn, ac awgrymir cwestiynau mwy penodol i'w trafod ar ôl gweld yr astudiaethau achos. Cyfeirir hefyd at brosiectau TLRP perthnasol.

Yn y DVD, cysylltir pob astudiaeth achos ag un egwyddor ond fe welwch fod egwyddorion eraill hefyd yn cael eu darlunio weithiau.

Astudiaeth achos 1:
Mae cysylltiadau cymdeithasol yn hollbwysig er mwyn dysgu

Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud

Yn aml, rhoddir tasgau i ddisgyblion eu gwneud mewn grwpiau. Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos bod hyn yn aml yn aneffeithiol oherwydd nad yw disgyblion yn gwybod sut mae gweithio a dysgu gyda'i gilydd. Mae hyn yn codi amheuon ynghylch gwerth gwaith grŵp. Fodd bynnag, dengys ymchwil TLRP newydd, pan fydd athrawon yn treulio amser yn hyfforddi disgyblion i weithio mewn grwpiau, bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyrhaeddiad academaidd, ar eu hymddygiad ac ar eu perthynas â'i gilydd.

Cwestiynau i'w trafod wrth wylio'r darn hwn o ffilm

- Sut mae agweddau gwybyddol (deallusol) ac affeithiol (cymelliannol) y dysgu'n cael eu mynegi a'u datblygu drwy gyfrwng cysylltiadau cymdeithasol?
- Pa egwyddorion eraill ar restr y TLRP a ddarlunnir, a sut y mae'r rheini'n gysylltiedig â'r egwyddor hon?
- Pa mor bwysig yw cyd-destun y pwnc ac a ellid rhoi'r egwyddor ar waith yn wahanol mewn pynciau eraill?

Prosiectau i edrych arnyn nhw

SPRinG, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/phase11/phase2a.htmll

ScotSPRinG, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/phase111/Scot_extb.html

Astudiaeth achos 2:
Dylai'r dysgu gynnwys ac ymrwymo'r dysgwr

Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud

Mae ysgolion wedi newid llai dros yr 20 mlynedd diwethaf nag y mae ffordd o fyw pobl ifanc a'u disgwyliadau. Wrth ymgynghori â disgyblion, bydd hynny'n cryfhau eu hymwneud â'r dysgu, yn rhoi golwg ddyfnach i'r athrawon ar alluoedd ac ar y dulliau dysgu sydd orau gan y disgyblion ac yn cryfhau polisi a chynllunio'r ysgol. Ond mae 'gwrando' ar ddisgyblion yn groes i hen arferion. Felly, mae angen cefnogi datblygu arferion newydd.

Cwestiynau i'w trafod wrth wylio'r darn hwn o ffilm

- Pa ystod o strategaethau y gellir eu defnyddio i annog y disgyblion i fynegi barn?
- Sut mae rhoi llais i'r disgyblion distaw neu'r rhai sydd wedi'u dadrithio? A sut mae osgoi creu 'llais disgyblion elitaidd'?
- Mae angen i ddisgyblion wybod y bydd yr hyn y byddan nhw'n ei ddweud yn newid pethau er gwell.
- Sut y gellir sicrhau dilysrwydd o'r fath?

Prosiectau i edrych arnyn nhw

Consulting Pupils, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/phase1/phase1dsept.html

CPAL, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/leitch.html

Astudiaeth achos 3:
Dylai'r asesu gefnogi'r dysgu

Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud

Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos bod asesu ar gyfer dysgu'n gallu gwella'r dysgu a'r cyrhaeddiad. Fodd bynnag, mae modd i arferion o'r fath ddod yn ddefod ac yn fecanyddol oni bai bod athrawon yn deall yr egwyddorion dysgu y'u seilir arnyn nhw. Bydd athrawon sy'n coleddu 'ysbryd' Asesu ar gyfer Dysgu, yn hytrach na dim ond 'llythyren y ddeddf' yn myfyrio ar yr hyn y maen nhw'n ei gredu a'u harferion ac yn defnyddio'r technegau hynny'n hyblyg ac yn bwrpasol i weddu i lif y gweithgarwch dysgu yn eu dosbarthiadau.

Cwestiynau i'w trafod wrth wylio'r darn hwn o ffilm

- Dangosir dau ddull o ddefnyddio Asesu ar gyfer Dysgu yn y darn hwn – rhannu meini prawf a 'goleuadau traffig'. Sut y dehonglir ac y defnyddir y rhain a pha egwyddorion sy'n sail iddyn nhw?
- Sut y gall Asesu ar gyfer Dysgu newid rolau a chydbwysedd cyfrifoldeb yn yr ystafell ddosbarth er mwyn i ddisgyblion ysgwyddo mwy o reolaeth dros eu dysgu?
- Beth yw manteision ac anawsterau posibl 'dysgu yn sgil methu'?

Prosiect i edrych arno

Learning How to Learn, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/phase11/phase2f.html

Astudiaeth achos 4:
Dylai athrawon sgaffaldio'r dysgu gan ddefnyddio'r offer priodol

Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud

Mae addysgu a dysgu'n golygu defnyddio offer, gan gynnwys technolegau newydd. Fodd bynnag, ni fydd TGCh yn yr ystafell ddosbarth o anghenraid yn gwella'r dysgu. Mae angen i athrawon a disgyblion wybod sut mae dewis offer a'u defnyddio'n briodol. Mae ansawdd arbenigedd athrawon wrth gefnogi defnydd disgyblion o TGCh yn hollbwysig ar gyfer dysgu effeithiol.

Cwestiynau i'w trafod wrth wylio'r darn hwn o ffilm

- Sut y gellir cynnal y ffocws ar ddysgu pwnc, wrth ddefnyddio TGCh i addysgu, fel nad yw'r rhyngweithio â'r technolegau newydd yn dod yn rhywbeth er ei fwyn ei hun?
- Beth mae'r athro yn y ffilm yn ei olygu pan ddywed ei bod yn bwysicach cael 'agenda' na 'chynllun'? Ydych chi'n cytuno?
- Pa egwyddorion eraill a restrir yn y darn hwn o'r ffilm?

Prosiectau i edrych arnyn nhw

InterActive, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/phase11/phase2i.html

ICTIT, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/kennewell.html

Glass boxes, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/rtfbevan.html

Astudiaeth achos 5:
Dylai addysgu adeiladu ar sail profiad blaenorol

Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud

Mae sut y gall ysgolion gynnwys pob plentyn o'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu'n ystyriaeth bwysig er nad yw'r broses yn un y mae pobl yn ei deall yn dda. Mae rhai pethau sy'n rhwystro plant rhag dysgu'n deillio o gamdybiaethau athrawon am eu disgyblion. Gall rhoi sylw i dystiolaeth o brofiad blaenorol disgybl gartref, yn yr ysgol ac yn eu cymunedau, helpu athrawon i gryfhau'r ffactorau sy'n sail i gyflawni, megis pleser a hyder y disgyblion wrth iddyn nhw ddysgu.

Cwestiynau i'w trafod wrth wylio'r darn hwn o ffilm

- Pa ystod o wahaniaethau ymhlith disgyblion sy'n amlwg yn yr ystafell ddosbarth hon a beth yw'r sialensiau?
- Pa mor bwysig yw 'cael hwyl' er mwyn dysgu?
- Pa gysyniadau o 'wahaniaethu' a 'dysgu wedi'i deilwra' y mae'r astudiaeth achos hon yn eu dangos? A oes unrhyw ddehongliadau eraill? Pa un yw'r mwyaf gwerthfawr?

Prosiectau i edrych arnyn nhw

Inclusive practice, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/phase1/phase1asept.html

Teacher engagement in inclusive practice, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/smbdavies.html

Home School Knowledge Exchange, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/phase11/phase2e.html

Astudiaeth achos 6:
Dylai addysgu arfogi dysgwyr ar gyfer bywyd

Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud

Dylai dysgu yn yr ysgol arfogi plant ar gyfer dysgu gydol oes fel oedolion, dinasyddion a gweithwyr. Mae sut y mae disgyblion yn meddwl amdanyn nhw eu hunain, fel dysgwyr yn benodol, yn hollbwysig. Bydd rhai plant yn meithrin ymdeimlad o feistroli, tra bo eraill yn dod yn ddibynnol – ac mae arferion yr ystafell ddosbarth yn cyfrannu at y deilliannau hyn. Un sgil allweddol yw dysgu 'meddwl am feddwl' (metawybyddiaeth). Datblygir hyn drwy reoli sgwrs yn yr ystafell ddosbarth rhwng athrawon a disgyblion a phan fydd disgyblion yn siarad â'i gilydd. Fodd bynnag, ni ddysgir sgiliau meddwl ar wahân i gwricwlwm y pwnc; mae angen addysgu'r patrymau meddwl a'r dysgu a wneir yn un o feysydd y cwricwlwm gyda'i gilydd.

Cwestiynau i'w trafod wrth wylio'r darn hwn o ffilm

- Pa awgrymiadau sydd o'r ffordd y mae'r disgyblion yn eu gweld eu hunain fel dysgwyr – eu hunaniaeth fel dysgwyr? Sut mae'r athrawes yn gweithio gyda'r rhain?
- Sut y caiff sgiliau meddwl eu datblygu yn yr ystafell ddosbarth hon? Sut mae'r plant yn ymateb? Sut mae'r pennaeth yn teimlo am eu harwyddocâd addysgol a chymdeithasol?
- Faint o egwyddorion eraill a ymgorfforir yn y darn hwn (e.e. drwy ei bwyslais ar rolau strwythuredig mewn trafodaethau grŵp, pwysigrwydd gwrando, bod angen i'r athrawes 'fynd gyda'r plant', trosglwyddo'r rheolaeth i'r dysgwyr, ac ati)?

Prosiectau i edrych arnyn nhw:

Identity and Learning Programme, gweler:
http://www.tlrp.org/project%20sites/ILP/index.html
ACTS II – Thinking Classrooms, gweler:
http://www.tlrp.org/proj/phase11/phase2g.html